**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Polisi Lleihau Tlodi

**Ystafell Bwyllgor 5, Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Llun, 20 Rhagfyr 2021 am 3.30 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd P Downing (Cadeirydd) fu'n llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| D W Helliwell | L R Jones | L V Walton |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Aled Gruffydd | Cyfreithiwr |
| Amy Hawkins | Pennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau i Oedolion |
| Jeremy Parkhouse | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Joanne Portwood | Swyddog Strategaeth a Pholisi |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): P K Jones a/ac C Richards

---

## 28 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 29 Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Polisi Lleihau Tlodi a gynhaliwyd ar 22 Tachwedd 2021 fel cofnod cywir.

## 30 Hyrwyddo Polisi Credyd Fforddiadwy.

Cyflwynodd Amy Hawkins, Pennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion, adroddiad ar ran y Cadeirydd a oedd yn ceisio mabwysiadu polisi a oedd yn gwreiddio’r gwaith o hyrwyddo credyd fforddiadwy.

Amlinellwyd bod y Pwyllgor Datblygu Polisi (PDP) Lleihau Tlodi wedi archwilio'r mater o Fenthyca Cost Uchel yn ystod Blwyddyn Ddinesig 2018-19 a chytunodd i ddatblygu Polisi Hyrwyddo Credyd Fforddiadwy a oedd yn amcanu rhoi terfyn ar dargedu Credyd Cost Uchel, atal Benthyca Cost Uchel a hyrwyddo mynediad at Gredyd Teg a Fforddiadwy i holl breswylwyr Abertawe. Byddai datblygu Polisi Hyrwyddo Credyd Fforddiadwy yn helpu i sicrhau bod yr ymagwedd yn rhan annatod o fframwaith polisi'r cyngor.

Ychwanegwyd bod benthyca'n anghenraid i lawer o bobl ar incwm isel, er mwyn cael 'dau ben llinyn ynghyd' neu o ganlyniad i adegau prysur fel y Nadolig, neu adegau anodd fel profedigaeth. Roedd pandemig COVID-19 hefyd wedi effeithio'n anghyfartal ar aelwydydd incwm isel, gan arwain at gynnydd yn nifer y bobl ac aelwydydd sy'n defnyddio credyd i dalu am hanfodion bob dydd fel bwyd, dillad a chyfleustodau.

At hynny, cyn pandemig COVID-19, amcangyfrifodd elusen ddyledion StepChange fod 8.8 miliwn o bobl yn defnyddio credyd cost uchel ar gyfer costau cadw tŷ beunyddiol. Roedd cwmnïau credyd cost uchel yn aml yn targedu'r rheini sydd o bosib â chredyd gwael ac chadernid ariannol isel. Mae hyn yn aml yn arwain at ddyled, diffygdalu ac ansolfedd, oherwydd gallai preswylwyr gymryd gormod o Gredyd Cost Uchel. Roedd nifer o breswylwyr a dargedwyd gan ddarparwyr credyd cost uchel hefyd yn agored i niwed ac mae gan y cyngor ddyletswydd i sicrhau eu bod yn cael eu cefnogi i wneud dewisiadau benthyca gwybodus.

Esboniwyd bod fersiwn ddrafft o'r Polisi Hyrwyddo Credyd Fforddiadwy, sydd ynghlwm wrth Atodiad A, wedi'i chyflwyno i'r Tîm Rheoli Corfforaethol ar 4 Tachwedd 2020 lle cytunwyd y gallai datblygiad y polisi symud ymlaen i ymgynghoriad cyhoeddus, cyn iddo gael ei gyflwyno gerbron y Cabinet a'i fabwysiadu fel polisi'r cyngor.

Hysbyswyd y Pwyllgor fod yr ymgynghoriad cyhoeddus ar gyfer y Polisi Hyrwyddo Credyd Fforddiadwy wedi'i lansio ar 26 Ebrill 2021 ac fe'i cynhaliwyd am gyfnod o bedair wythnos gan ddod i ben ar 23 Mai 2021. Ystyriwyd yr ymatebion i'r ymgynghoriad a chymerwyd camau pellach i ymgysylltu â'r Undeb Credyd yn Abertawe.

Croesawodd y Pwyllgor yr adroddiad a thynnodd sylw at yr angen i newid agweddau at undebau credyd ac annog y defnydd ohonynt.

**Penderfynwyd** cytuno ar y polisi a'i anfon at yr Aelod Cabinet/ Cabinet i'w gymeradwyo.

## 31 Polisi Adennill Dyledion Personol Corfforaethol.

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion adroddiad drafft a oedd yn ceisio mabwysiadu polisi a oedd yn gwreiddio ymagwedd gorfforaethol at gasglu dyledion personol.

Esboniwyd bod y Polisi Adennill Dyledion Personol Corfforaethol drafft a ddarparwyd yn Atodiad A yn nodi sut y byddai Cyngor Abertawe'n gweithio gyda'i gwsmeriaid a'i bartneriaid i gasglu dyledion personol a'r hyn y byddai'n ei wneud i helpu'r rheini sydd mewn dyled.

Ychwanegwyd bod dyled yn cael ei diffinio fel 'unrhyw swm sy'n ddyledus nad yw wedi'i dalu erbyn y dyddiad y mae'r taliad yn ddyledus' ac mae'r polisi'n cwmpasu'r holl ddyledion personol sy'n ddyledus i'r cyngor.

Pwysleisiwyd pwysigrwydd cynnal incwm y cyngor, ynghyd â chydnabod y gallai ymgysylltu'n gynnar â'r rheini sydd mewn perygl o ddyled neu sydd mewn dyled atal dyledion rhag gwaethygu, lleihau dyled a chynyddu gallu dinasyddion i gyflawni'u cyfrifoldebau ariannol.

Nodwyd bod y cyngor wedi ceisio datblygu polisïau i adlewyrchu ffyniant economaidd a sut mae cwsmeriaid yn gwybod y bydd y cyngor yn helpu pobl â phryderon ariannol i gael cymorth diduedd ac am ddim os oedd angen cymorth arnynt.

Roedd gwasanaethau ar draws y cyngor sy'n casglu dyledion personol heb eu talu wedi rhoi adborth cychwynnol ar y Polisi Adennill Dyledion Personol Corfforaethol drafft, gan gynnwys yr egwyddorion arweiniol a oedd wedi'u datblygu. Cynhaliwyd gweithdy gyda Swyddogion Rhenti Tai a'r adran Treth y Cyngor ac wedi hynny gofynnwyd i'r gwasanaethau hyn ddarparu cynnwys drafft priodol mewn perthynas â'u gwasanaethau. Y gobaith oedd y byddai cynnydd yn cael ei wneud yn gynnar yn y Flwyddyn Newydd.

Soniodd y Pwyllgor am yr angen am gynnydd er mwyn i'r polisi gael ei fabwysiadu a chynigiwyd, er mwyn cyflymu'r broses, y dylid dosbarthu gwelliannau pellach i'r Pwyllgor i gael sylwadau arnynt.

**Penderfynwyd:** -

1) Y caiff gweddill y gwasanaethau sy'n casglu dyled bersonol eu gwahodd i ddrafftio adrannau pellach i'r polisi drafft sy'n adlewyrchu sut y caiff egwyddorion y polisi eu defnyddio yn eu meysydd gwasanaeth;
2) Y caiff gwelliannau pellach eu dosbarthu i'r Pwyllgor er mwyn iddynt wneud sylwadau arnynt.

## 32 Cynllun Gwaith 2021-2022.

Cyflwynodd y Cadeirydd Gynllun Gwaith diweddaredig ar gyfer 2021-2022.

Cynigiodd y dylid trafod y Polisi Tyfu Bwyd Cymunedol yn y cyfarfod a drefnwyd ar gyfer 24 Ionawr 2022. Ychwanegodd y byddai map o'r holl dir y gellid ei ddefnyddio ar gyfer tyfu bwyd o fewn yr Awdurdod yn helpu'r trafodaethau. Yn ogystal, gofynnodd i adran ar Rannu Gerddi gael ei chynnwys yn y Polisi.

**Penderfynwyd:** -

1) nodi cynnwys y Cynllun Gwaith diweddaredig;
2) trafod y Polisi Tyfu Bwyd Cymunedol yn y cyfarfod nesaf a drefnwyd ar gyfer 24 Ionawr 2022;
3) darparu map sy'n amlinellu'r holl dir sydd ar gael y gellid ei ddefnyddio ar gyfer tyfu bwyd o fewn yr Awdurdod;
4) cynnwys adran ar Rannu Gerddi yn y Polisi.

Daeth y cyfarfod I ben am 3.48 pm

**Cadeirydd**